# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 25 Tachwedd 2004

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod llwybrau beicio mynydd Coed y Brenin ac Afan Argoed yn cael eu cynnal a'u cadw yn briodol. (WAQ40196)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i gadw'r rhodwyr a fydd yn cynnal a chadw'r llwybrau beicio mynydd yn yr ardaloedd Menter Coedwigaeth a ganlyn: Coed y Brenin ac Afan Argoed. (WAQ40197)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a oes unrhyw gynlluniau i roi cymhorthdal tuag at gost cael trwyddedau i drin a phuro olew llysiau a ddefnyddiwyd, neu a oes unrhyw sylwadau wedi'u cyflwyno/yn mynd i gael eu cyflwyno i Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch ysgafnhau baich costau o'r fath. (WAQ40167)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog egluro'r mathau o drwyddedau sydd eu hangen i drin a phuro olew llysiau a ddefnyddiwyd. (WAQ40168)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog nodi'r gost o gael trwyddedau i drin a phuro olew llysiau a ddefnyddiwyd. (WAQ40169)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i helpu i ddiogelu'r amgylchedd yng Nghymoedd y De. (WAQ40170)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith amgylcheddol defnyddio cerbydau oddi-ar-y-ffordd yng Nghymru. (WAQ40171)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynllun cloddio glo brig arfaethedig Ffos-y-frân ym Merthyr Tudful. (WAQ40172)

**David Davies (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Gyswllt Ffermio. (WAQ40173)

**Huw Lewis (Merthyr Tydfil a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y mesurau i amddiffyn rhag llifogydd mewndirol yng Nghymru. (WAQ40174)

**Huw Lewis (Merthyr Tydfil a Rhymni):** Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cymryd i helpu cartrefi sydd mewn perygl o lifogydd. (WAQ40175)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y strategaeth i amddiffyn a gwella amgylchedd naturiol Cymru. (WAQ40176)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i gynyddu lefelau ailgylchu yng Nghaerdydd. (WAQ40177)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar garthu Agregau Morol. (WAQ40178)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ganlyniadau ansawdd dyfroedd ymdrochi Cymru yn 2004. (WAQ40179)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfraniad Llywodraeth y Cynulliad tuag at yr ymgynghoriad ar y Mesur drafft ar Les Anifeiliaid. (WAQ40180)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a fydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ar gynllun cloddio glo brig arfaethedig Ffos-y-frân. (WAQ40215)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Wrth lunio cyllideb eleni, pa sylwadau a wnaed i'r Gweinidog ynghylch cynyddu'r cyllid ar gyfer y Portffolio Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. (WAQ40181)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatgan sawl un o linellau gwariant y gyllideb fydd yn derbyn yr un faint o gyllid yn 2005/06 ag y mae’n ei dderbyn yn 2004/05. (WAQ40182)

**Huw Lewis (Merthyr Tydfil a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfanswm y cyllid y mae wedi'i ddyrannu i'r gyllideb Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2004/05. (WAQ40183)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau a gymerwyd i ddatblygu arferion cyllidebol er mwyn hybu amcanion strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ40184)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y strategaeth i ddatblygu ymhellach yr arferion gorau o ran arferion cyllidebol y Cynulliad. (WAQ40185)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Faint o feddygon teulu y mae pob un o'r Byrddau Iechyd Lleol yn bwriadu eu rhoi drwy gyrsiau ymwybyddiaeth o fyddardod yn ystod y flwyddyn nesaf. (WAQ40166)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynlluniau wrth gefn sydd gan Fwrdd Iechyd Lleol Gwynedd ar gyfer llifogydd a damweiniau ar ffyrdd yng Ngwynedd yn ystod y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau arferol. (WAQ40186)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynlluniau wrth gefn sydd gan Fwrdd Iechyd Lleol Gwynedd ar gyfer ffyrdd sydd ar gau/tagfeydd yng Ngwynedd yn ystod y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau arferol. (WAQ40187)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi datganiad ar unrhyw geisiadau a wnaed gan Jamma Umoja i agor canolfan deuluoedd mewn gwesty segur yng Nglanaman a beth yw nod y ganolfan hon. (WAQ40214)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi datganiad ar adran 64 o Ddeddf Gwasanaethau Iechyd a Iechyd y Cyhoedd 1968 a'i heffaith ar y ddarpariaeth gyllid ar gyfer gwasanaethau y canolfannau adsefydlu camddefnyddwyr sylweddau yng Nghymru. (WAQ40188)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud o'r effaith a gaiff newid y ffynhonnell ariannu uniongyrchol o adran 64 o'r Ddeddf Gwasanaethau Iechyd a Iechyd y Cyhoedd i'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ar ganolfannau adsefydlu camddefnyddwyr cyffuriau ac alcohol yng Nghymru. (WAQ40189)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y posibilrwydd o ddatgofrestru cartref gofal Rhoserchan ar gyfer camddefnyddwyr sylweddau, a'r asesiad a wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru o'r effaith a gaiff hyn ar Roserchan a'i allu i roi triniaeth. (WAQ40190)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y posibilrwydd o ddatgofrestru cartref gofal Rhoserchan ar gyfer camddefnyddwyr sylweddau, a'r asesiad a wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru o'r effaith a gaiff hyn ar y gymuned leol. (WAQ40191)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y posibilrwydd o ddatgofrestru cartref gofal Rhoserchan ar gyfer camddefnyddwyr sylweddau, a'r asesiad a wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru o'r effaith a gaiff hyn ar deuluoedd y preswylwyr. (WAQ40192)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y posibilrwydd o ddatgofrestru cartref gofal Rhoserchan ar gyfer camddefnyddwyr sylweddau, a'r asesiad a wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru o'r effaith a gaiff hyn ar ganolfannau tebyg ar gyfer adsefydlu camddefnyddwyr cyffuriau. (WAQ40193)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog adroddiad ar y posibilrwydd o ddatgofrestru cartref gofal Rhoserchan ar gyfer camddefnyddwyr sylweddau, a'r asesiad a wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru o'r effaith a gaiff hyn ar y ganolfan a'i phreswylwyr. (WAQ40194)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan faint o gamddefnyddwyr cyffuriau ac alcohol sydd yn y Canolbarth a'r Gorllewin. (WAQ40209)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan faint o gamddefnyddwyr cyffuriau ac alcohol sydd yng Nghymru. (WAQ40210)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i leihau nifer y troseddau sy'n digwydd yng Nghymru o ganlyniad i alcohol a chyffuriau. (WAQ40211)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau diogelwch y cyhoedd ledled Cymru rhag camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. (WAQ40212)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y bobl sy'n gaeth i gyffuriau yn Nyffryn Aman. (WAQ40213)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddarpariaeth ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at ganolfannau adsefydlu pobl sydd wedi'u caethiwo i alcohol neu gyffuriau, a nodi'r effaith ar y canolfannau hyn pe bai'r arian yn mynd yn hytrach i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol. (WAQ40195)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau ataliol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu rhoi ar waith er mwyn atal unigolion yng Nghymru rhag datblygu dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol. (WAQ40198)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan faint o gyllid y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i roi i Ganolfan Ailsefydlu Rhoserchan bob blwyddyn ers 1999. (WAQ40199)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'n fwriad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i barhau i roi cyllid i Ganolfan Adsefydlu Rhoserchan, Aberystwyth yn y dyfodol agos. (WAQ40200)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o ganolfannau adsefydlu cyffuriau ac alcohol yng Nghymru sy'n derbyn achosion a gyfeiriwyd o Loegr a beth yw'r gost ar gyfer pob claf. (WAQ40201)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwasanaethau triniaeth adsefydlu cyffuriau ac alcohol sydd ar gael yn y Canolbarth a'r Gorllewin. (WAQ40202)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gallu i fanteisio ar wasanaethau triniaeth adsefydlu cyffuriau ac alcohol yn y Canolbarth a'r Gorllewin. (WAQ40203)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o gamddefnyddwyr cyffuriau ac alcohol sy'n cael eu cyfeirio at unedau yn Lloegr a beth yw'r gost ar gyfer pob claf. (WAQ40204)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nod Llywodraeth Cynulliad Cymru o sicrhau cynnydd o 50% yn nifer y lleoedd ar gyfer triniaeth adsefydlu cyffuriau ac alcohol. (WAQ40205)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl y gall gyflawni ei nod o sicrhau cynnydd o 50% yn nifer y lleoedd adsefydlu cyffuriau ac alcohol. (WAQ40206)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud yn y Canolbarth a'r Gorllewin i sicrhau y ceir cynnydd yn nifer y canolfannau adsefydlu cyffuriau ac alcohol preswyl cofrestredig. (WAQ40207)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol i sicrhau bod yna fwy o ganolfannau adsefydlu cyffuriau ac alcohol preswyl cofrestredig. (WAQ40208)